

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mehefin 1af, 2017 yn Ffestri Capel Pencaenewydd yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans, Cynghorydd Sir Gwynedd; Margaret Griffith; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Naomi Jones a Tegid Jones.
2. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor. Penderfynwyd gohirio dewis tan gyfarfod mis Gorffennaf.
3. Arwyddo Datganiad Derbyn Swydd y Cynghorwyr. Doedd y Cynghorwyr sydd heb arwyddo ddim yn bresennol.
4. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fai 11eg, 2017.
5. Arwyddwyd cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.
6. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
7. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
8. Seddau gwag ar y Cyngor; Ward Llanystumdwy, 2 sedd; penderfynwyd dal ati i feddwl am enwau. Ward Chwilog, 3 sedd; penderfynwyd cyfethol y Cynghorydd Aled Lloyd Evans, Cynghorydd Sirol, y Parch Aled Davies, Aelybryn, Chwilog a Ms Ceri Jones, Glyncoed, Llanarmon. Ward Llanygybi, 1 sedd; penderfynwyd cyfethol Ms Angela Williams, Rhos Helyg, Llanygybi.
9. Cyngor Gwynedd.
 1. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mai 2017. Derbyniwyd.
 2. Gwasanaeth Cyfreithiol; Y Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod. a Hyfforddiant. Doedd dim awydd rhoi enw i fynd ar y pwyllgor yma a phenderfynwyd ymateb i'r cais oedd y Cyngor yma am fod yn rhan o gwrs ar y Cod Ymddygiad drwy ddweud bod aelodau o'r Cyngor wedi bod ar gyrsiau Un Llais Cymru yn ddiweddar.
 3. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy; Llwybrau Garn Bentyrch a Phont Merchaid. Penderfynwyd gwneud cais am gyfarfod ar y safle gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.
10. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y gymuned:
 1. Cais Rhif: C17/0428/41/LL – Codi modurdy newydd a darparu ffenestri gromen ar yr eiddo presennol; Morawel, Llanygybi. Penderfynwyd cefnogi.
11. Un Llais Cymru:
 - a. Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Bydd y Clerc yn trosglwyddo'r buddiant ddatganir gan y Cynghorwyr i ffurflen baratowyd gan Un Llais Cymru sydd wedi cael ei haddasu gan y Clerc. Penderfynwyd derbyn y dull yma o weithredu.
 - b. Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017. Penderfynwyd mai'r cynnig yma fydd yn cael ei anfon yn enw'r Cyngor yma:
Mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn galw ar Un Llais Cymru i ddwyn perswâd ar Landlordiaid Cartrefi Cymdeithasol yng Nghymru i wrthod hawl i'w tenantiaid roi eu henwau ar gofrestr cyfnewid eiddo, tu allan i'w siroedd.
 - c. BDO – cyfieithu dogfennau. Gan mai yn Gymraeg mae'r Cyngor yma yn gweithredu, penderfynwyd derbyn yr argymhelliad gan Un Llais Cymru nad oes angen cyfieithu dogfennau ar gyfer yr Archwilwyr Allanol.
12. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

Cyflwr y bont ar y ffordd osgoi yn Llanystumdwy. Derbyniwyd cwynion bod craciau wedi ymddangos yn waliau'r bont naill ochr i'r ffordd osgoi. Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i dynnu eu sylw at hyn.

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Materion Ariannol

13. Derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol ar gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2017. Doedd dim materion yn codi. Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol ac yn awr gellir cwblhau'r ffurflenni priodol i'w hanfon ymlaen at yr Archwiliwr Allanol erbyn Gorffennaf 3ydd, 2017, y dyddiad archwilio. Diolchwyd i'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol am ei waith.

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl ar lafar o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

15. Cae Chwarae Llangybi; trafod prisiau am dorri/clirio/tocio drain a glanhau matiau am weddill y tymor yma. Penderfynwyd derbyn pris Trefn o £70-y toriad am dorri, clirio a gwaredu, hyn yn cynnwys unrhyw waith barbio ychwanegol a glanhau matiau.

16. Canclwm Siapaneaidd

a. ar dir y Cyngor ger pont pentref Llanystumdwy. Derbyn pris am ei waredu. Penderfynwyd derbyn pris Richard Hubbard, Llannor o £40-.

b. ar dir Dŵr Cymru yng ngheg y llwybr yn Afonwen. Derbyniwyd e bost gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn dweud bod rhywun wedi defnyddio strimmer ar y canclwm sydd yn groes i'r ddeddfwriaeth ac yn gofyn i'r Cyngor yma roi hyn i sylw'r contractor er mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Roedd y Clerc wedi sylwi bod canclwm yng ngheg y llwybr ac wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn iddynt anfon y wybodaeth ymlaen i Dŵr Cymru fel bob blwyddyn ac yna wedi cysylltu gyda'r contractor i'w rybuddio i beidio rhoi strimmer arno.

Derbyniwyd.

17. Anfoneb angen ei dalu: Trefn, am waith crafu a phaentio 3 o feinciau'r Cyngor, Cae Chwarae Llangybi, Cae Capel, Chwilog a gyferbyn â cheg lôn Ynysgain; £110- taliad BACS, cyfeirnod 24. Mae hwn yn llai na'r pris o £290- dderbyniwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ionawr 3ydd, 2017, rhif 14 ar y rhaglen waith achos fe newidiwyd manylion y gwaith (penderfyniad cyfarfod Mai 11eg, 2017, rhif 19 ar y rhaglen waith).

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.